# Dinas a Sir Abertawe - Adroddiad Blynyddol Cynghorydd 2015-2016

Mae adroddiad blynyddol y cynghorydd hwn yn amlinellu ei weithgareddau dros y flwyddyn a ddaeth i ben ar **18 Mai 2016.** Fe'i darperir er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid oes ganddo ddiben arall. Barn y cynghorydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw o angenrheidrwydd yn adlewyrchu barn Dinas a Sir Abertawe.

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Cynghorydd:** | Desmond Thomas YH | Adran Etholiadol: | West Cross |

| | |
|---|---|
| **Swydd Cyflog Uwch:** | Cadeirydd Pwyllgor Cynghori'r Cabinet ar Addysg a Phobl Ifanc |

## Adran 1: Gweithgareddau yn yr etholaeth

Cynhaliwyd cymorthfeydd bob nos Lun yng Nghanolfan Gymunedol West Cross. Roedd Mark Child, Cydgynghorydd West Cross, a minnau yno bob yn ail. Y prif fater oedd diffyg tai fforddiadwy.

Cynhaliais gymorthfeydd niferus ar draws y ward. Dechreuais lawer o ymweliadau safle gyda swyddogion er mwyn gwella diogelwch traffig.

Aelod o Bwyllgor Rheoli Canolfan Gymunedol West Cross.

Cynhaliais gyfarfodydd chwarterol â Rheolwyr Tai West Cross ac euthum am dro bob chwe mis i sicrhau bod y stad yn cael ei rheoli'n dda.

## Adran 2: Presenoldeb y cynghorydd yng nghyfarfodydd penodol cyrff y cyngor

Un elfen bwysig yn unig o ddyletswyddau cynghorydd yw mynychu cyfarfodydd cyrff y cyngor. Mae cynghorwyr hefyd yn gweithredu trwy gynnal cymorthfeydd, mynd i gyfarfodydd ac ymateb i ymholiadau cyffredinol o'r adran etholiadol.

Isod dangosir % presenoldeb seiliedig ar aelodaeth pwyllgor:

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Pwyllgor Apeliadau a Dyfarniadau | 2 | / | 2 | 100 | % |
| Pwyllgor Archwilio | 4 | / | 7 | 57 | % |
| Pwyllgor Cynghori'r Cabinet ar Fusnes a Gweinyddu | 3 | / | 4 | 75 | % |
| Gweithgor y Cyfansoddiad | 1 | / | 1 | 100 | % |
| Y Cyngor | 18 | / | 18 | 100 | % |
| Pwyllgor Cynllunio | 8 | / | 8 | 100 | % |
| **CYFFREDINOL** | **36** | **/** | **40** | 90 | **%** |
| | | | | | |
| Cyfarfodydd Craffu: | | | | | |
| Panel Perfformiad Craffu'r Gwasanaethau Plant a Theuluoedd | 5 | / | 12 | 42 | % |
| Gweithgor Craffu Rheoli Perygl Llifogydd Lleol | 1 | / | 1 | 100 | % |
| Panel Perfformiad Craffu Gwella Gwasanaethau a Chyllid | 5 | / | 11 | 45 | % |
| Gweithgor Craffu Ceffylau Wedi'u Clymu | 3 | / | 3 | 100 | % |
| **CYFFREDINOL** | **14** | **/** | **27** | 52 | **%** |

**Adran 3:Rôl a chyfrifoldebau'r cynghorydd**

Aelod Llywyddol y Cyngor (Cadeirydd)
Cadeirydd Gweithgor y Cyfansoddiad.
Cadeirydd y Pwyllgor Disgyblu Prif Swyddogion
Dirprwy Aelod y Cabinet dros Addysg
Cadeirydd Pwyllgor Cynghori'r Cabinet ar Addysg a Phobl Ifanc
Aelod o Bwyllgor Cynllunio'r cyngor
Aelod o'r Panel Craffu Perfformiad Gwella Gwasanaethau a Chyllid
Aelod o'r Panel Craffu Perfformiad Gwasanaethau Plant a Theuluoedd
Llywodraethwr Ysgol Gynradd y Garreg Wen ac Aelod o'i Phwyllgorau Cyllid a Mangreoedd.
Llywodraethwr Ysgol Gynradd Pennard
Llywydd Canolfan Gymunedol West Cross

**Adran 4: Mentrau a gweithgareddau arbennig**

Trefnais nifer o ymweliadau safle er mwyn gwella diogelwch ffyrdd a materion amgylcheddol yn West Cross.

Sicrheais nawdd gan fanwerthwyr bwyd lleol ar gyfer darparu bordydd picnic a biniau sbwriel ar faes pentref West Cross.

Cyfrifol, fel Cadeirydd Pwyllgor Cynghori'r Cabinet ar Addysg a Phobl Ifanc, dros fynd i'r afael â mater sicrhau bod ein holl bobl ifanc yn barod ar gyfer gwaith, hyfforddiant neu addysg pan fyddant yn gadael yr ysgol.

**Adran 5: Dysgu a datblygu**

Euthum i'r hyfforddiant canlynol:

04/05/2016 - Datblygu Economeg a Dichonoldeb Ariannol
04/05/2016 - Apeliadau Diswyddo ac Achwyn ar y Cyd
18/04/2016 - Arweiniad ar yr Asesiad Effaith Cydraddoldeb a Hawliau Dynol a Chraffu ar Newidiadau i'r Gwasanaethau Cymunedol
13/04/2016 - A. 106 Cytundebau/Rhwymedigaethau Cynllunio
12/04/2016 - Gloywi Arweiniad Dylunio Preswyl
08/03/2016 - Deddf Cynllunio Cymru - Gweithdrefnau Rheoli Datblygu
25/02/2016 - Pwyllgor Cynllunio - Hawliau Tramwy
05/11/2015 - Cyflwyniad i Gynnwys y Gymuned
29/10/2015 - Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP)
12/10/2015 - Penderfynu ar Geisiadau am Statws Maes Tref neu Bentref
08/09/2015 - Pwyllgor Apeliadau a Dyfarniadau
03/06/2015 – Data Ysgolion (Llywodraethwyr)

40 mlynedd o brofiad fel cynghorydd ar gynghorau olynol.  Aelod o'r Pwyllgor Cynllunio y cefais hyfforddiant arbennig ar ei gyfer.

30 mlynedd o brofiad fel Ynad Heddwch, sy'n helpu wrth gadeirio'r Pwyllgor Apeliadau a Dyfarniadau.

**Adran 6: Gweithgareddau a materion eraill**

Aelod gydol oes o undeb llafur.

Aelod o Brifysgol y Drydedd Oes.

Aelod o gangen y Mwmbwls o'r Blaid Lafur.

Diddordeb mewn garddio, chwaraeon a chadw'n heini.

**Adran 7: Taliadau cydnabyddiaeth i gynghorwyr**

Cyflog Uwch: £22,000

Gellir gweld ffurflenni hawlio costau teithio a chynhaliaeth cynghorwyr yma:
http://democracy.swansea.gov.uk/ecCatDisplay.aspx?sch=doc&cat=13266&path=0&LLL=0

Rwy'n hawlio ar gyfer treuliau “allan o'r sir” yn unig.

Gellir gweld treuliau a lwfansau blynyddol cynghorwyr yma:
http://democracy.swansea.gov.uk/ecCatDisplay.aspx?sch=doc&cat=13284&path=0&LLL=0

| | |
|---|---|
| **Dyddiad**: | 18.05.2016 |